

Gwybodaeth meddygol
gyfrinachol
G 1 W

G1W
Diwyg Gorff 22

RHAN A: AMDANOCH CHI

Llenwch y ffurflen hon mewn **LLYTHRENNAU BRAS** gan ddefnyddio **INC DU**

Teitl _____ Enw llawn _____

Cyfeiriad llawn _____

Cod post _____ Dyddiad geni _____

Rhif GIG _____ Rhif gyrrwr _____
(Os y gwyddoch)

Rhif ffôn symudol _____ Rhif ffôn cartref _____
(Opsiydol) (Opsiydol)

E-bost _____
(Opsiydol)

RHAN B: MANYLION EICH GWEITHIWR GOFAL IECHYD PROFFESIYNOL

Darparwch fanylion y meddyg teulu NEU'R ymgynghorydd rydych wedi ei weld am y cyflwr hwn

PWYSIG: Rhaid ichi ddarparu enw a chyfeiriad llawn eich meddyg teulu a/neu ymgynghorydd neu bydd y ffurflen yn cael ei dychwelyd atoch, a fydd yn arwain at oedi.

**MANYLION Y
MEDDYG TEULU**

Enw llawn _____

Meddygfa _____

Cyfeiriad llawn _____

Cod post _____ Rhif ffôn _____

E-bost _____
(Os y gwyddoch)

Dyddiad y gwelwyd meddyg teulu ddiwethaf am y cyflwr hwn _____

MANYLION YR YMGYNGHORYDD

Teitl _____ Enw llawn _____

Adran _____

Cyfeiriad llawn yr Ysbyty _____

Cod post _____ Rhif ffôn _____

E-bost _____
(Os y gwyddoch)

Dyddiad y gwelwyd ymgynghorydd ddiwethaf am y cyflwr hwn _____



Holiadur i asesu eich ffitrwydd meddygol i yrru.

Os ydych yn ansicr ynghylch yr atebion, rydym yn eich cynghori i drafod y ffurflen gyda'ch Meddyg.
Atebwch BOB cwestiwn, neu bydd yn peri oedi i'ch achos

1. Rhowch enw eich cyflwr neu gyflyrau meddygol

2. Rhowch frasmcan o ddyddiad y diagnosis.

Mis	Blwyddyn

3. a) Ai salwch achosodd eich cyflwr?

Ie	Na

Os Ie, rhowch fanylion llawn: _____

b) Ai bod mewn damwain achosodd eich cyflwr?

Ie	Na

Os Ie, rhowch fanylion llawn: _____

c) Ai anaf i'r pen achosodd eich cyflwr?

Ie <input type="checkbox"/>	Na <input type="checkbox"/>
-----------------------------	-----------------------------

Os Ie, ewch i www.gov.uk/health-conditions-and-driving i lawrlwytho a chwblhau holiadur meddygol B1W a'i anfon i DVLA. Fel arall, ar ôl derbyn y holiadur hwn byddwn yn anfon holiadur B1W atoch i'w gwblhau.

d) A oedd eich cyflwr yn gysylltiedig ag alcohol?

Oedd	Nac oedd

Os Oedd, rhowch fanylion llawn: _____

4. Disgrifiwch sut mae'r cyflwr yn effeithio arnoch chi:

a) pan fyddwch yn gyrru _____

b) yn gyffredinol _____

5. A yw eich meddyg wedi eich cynghori nad ydych yn ffit i yrru ar hyn o bryd Ydy Nac ydy

6. Rhowch enw a dogn eich meddyginiaeth bresennol gan gynnwys diferion llygad.

Enw'r Feddyginiaeth	Dogn	Rheswm Dros Gymryd

7. A yw'r feddyginiaeth yn eich gwneud yn gysglyd neu'n ddryslyd wrth yrru? Ydy Nac ydy

8. Rhowch ddyddiadau unrhyw ymgynghoriadau ffôn, fideo neu wyneb yn wyneb ar gyfer y cyflwr hwn:

Meddyg			Ymgynghorydd		
Dyddiad y cyswllt diwethaf			Dyddiad y cyswllt diwethaf		
Dyddiad y cyswllt nesaf			Dyddiad y cyswllt nesaf		

9. A ydych chi wedi cael asesiad gyrru? Ydw Nac ydw
Os Ydw, cynhwyswch gopi o'r adroddiad

10. Oes angen gyrru cerbyd arnoch gyda dulliau rheoli arbennig neu drawsyrant awtomatig? Oes Nac oes
Os ateboch Na i G10, nid oes angen ichi ateb C10a na 10b.

***Os oes arnoch angen rheolyddion arbennig, llenwch y daflen drosodd*

a) Ydych chi wedi dweud wrthym o'r blaen bod arnoch angen dulliau rheoli arbennig neu drawsyrant awtomatig? Ydw Nac ydw
Os Ydw, atebwch C10b

b) Ers i'ch trwydded olaf gael ei chyhoeddi, ydych chi wedi gosod dulliau rheoli ychwanegol yn eich cerbyd? Ydw Nac ydw



MEDDYGOL YN GYFRINACHOL

D497W
Diwyg Hyd 16

Dulliau Rheoli Arbennig

NI DDYLECH LENWI'R FFURFLEN HON OS NAD OES GENNYCH DRWYDDED YRRU LAWN

Rydych wedi datgan bod arnoch angen gyrru cerbyd gyda dulliau rheoli arbennig arno neu drawsyrant awtomatig; rhaid ichi gwblhau'r adran isod sydd yn berthnasol i chi. Bydd y cod cyfyngiad yn cael ei ddiweddarau ar eich cofnod ac yn ymddangos ar eich trwydded. Ysgrifennwch atom os bydd eich amgylchiadau'n newid. Gallwn newid, ychwanegu neu ddiddymu'r codau.

Bydd angen ichi hefyd ddychwelyd eich trwydded yrru bresennol (os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes). Os oes gennych hawl gyrru dros dro neu rydych yn gwneud cais am drwydded dros dro, os oes angen dulliau rheoli arbennig, yna bydd y rhain yn cael eu hychwanegu pan fyddwch yn pasio eich prawf gyrru.

DULLIAU RHEOLI CERBYD ARBENNIG: (yn gymwys i geir ac os yn briodol, i lorïau a bysiau)

Os ticiwch **78**, fel arfer nid oes angen ichi dicio **10** (Trawsyrant addasedig) na **15** (Cydiwr Addasedig).

Os ticiwch **32** (Brêc gwasanaeth a systemau cyflymu cyfunol) neu **33** (Brêc gwasanaeth, systemau sbardun a llywio cyfunol), fel arfer nid oes angen ichi dicio **20** (System Frecio Addasedig) neu **25** (System Sbardun Addasedig).

Adran 1a – Dulliau rheoli Car NEU Fws a Lori

- | | | |
|--|--|--|
| <input type="checkbox"/> 78 -Trawsyrant Awtomatig
(Peidiwch â thicio 78 os ydych yn ei yrru o ddewis) | <input type="checkbox"/> 10 -Trawsyrant Addasedig | <input type="checkbox"/> 15 -Cydiwr Addasedig |
| <input type="checkbox"/> 20 -System Frecio Addasedig | <input type="checkbox"/> 25 -System Sbardun Addasedig | <input type="checkbox"/> 31 -Addasiadau pedal a diogeliadau pedal |
| <input type="checkbox"/> 32 -Brêc gwasanaeth cyfunol a systemau sbardun | <input type="checkbox"/> 33 -Brêc gwasanaeth cyfunol, systemau sbardun a llywio | <input type="checkbox"/> 35 -Gosodiadau Rheoli Addasedig |
| <input type="checkbox"/> 40 -Llywiwr Addasedig | <input type="checkbox"/> 42 -Drych Golwg Ôl Addasedig | <input type="checkbox"/> 43 -Sedd Gyrrwr Addasedig |

Adran 1b – Dulliau Rheoli Beic Modur neu Feic Tair Olwyn

- | | | |
|--|--|--|
| <input type="checkbox"/> 78 -Trawsyrant Awtomatig
(Peidiwch â thicio 78 os ydych yn ei yrru o ddewis) | <input type="checkbox"/> 44.01 -Brêc Sengl | <input type="checkbox"/> 44.02 -Brêc olwyn flaen addasedig |
| <input type="checkbox"/> 44.03 -Brêc olwyn ôl addasedig | <input type="checkbox"/> 44.04 -Sbardun addasedig | <input type="checkbox"/> 44.05 -Trawsyrant llaw a chydiwr addasedig |
| <input type="checkbox"/> 44.06 -Drych golwg ôl addasedig | <input type="checkbox"/> 44.07 -Gorchmynion addasedig (goleuadau, dangosydd ac ati) | <input type="checkbox"/> 44.08 -Uchder sedd – yn caniatáu'r gyrrwr eistedd gyda dwy droed ar yr arwyneb ar unwaith a chydbwyso'r olwyn wrth stopio/sefyll |
| <input type="checkbox"/> 44.11 -Cynhaliwr traed addasedig | <input type="checkbox"/> 44.12 -Gafael dwylo addasedig | |
| <input type="checkbox"/> 45 -Beic modur gydag ystlysgar yn unig | | |

TICIWCH Y BLWCH PERTHNASOL

Nid wyf wedi amgáu fy nhrwydded oherwydd: Mae ar goll/wedi ei dwyn

Mae eisoes wedi cael ei dychwelyd i DVLA

Amgaeir fy nhrwydded

Datganiad: Rwy'n cadarnhau bod arnaf angen y dulliau rheoli rwyf wedi'u nodi uchod

Llofnod: _____

Dyddiad: _____

Awdurdodiad yr ymgeisydd

Mae'n rhaid ichi lenwi'r adran hon ac mae'n rhaid ichi **beidio** â'i newid mewn unrhyw fodd. Darllenwch y datganiad canlynol yn ofalus a llofnodwch i gadarnhau y datganiadau isod.

Gwybodaeth bwysig am ffitrwydd i yrru

- Fel rhan o'r ymchwiliad i'ch ffitrwydd i yrru, gallem (DVLA) ofyn ichi gael archwiliad meddygol a/neu ryw ffurf o asesiad ymarferol. Os byddwn, bydd angen eich manylion meddygol cefndirol ar yr unigolion fydd yn ymwneud â'r rhain i gynnal asesiad priodol.
- Gallai'r unigolion hyn gynnwys meddygon, orthoptyddion mewn clinigau llygaid neu staff parafeddygol mewn canolfan asesu gyrru. Byddwn yn rhyddhau gwybodaeth sy'n berthnasol i asesiad meddygol eich ffitrwydd i yrru yn unig.
- Hefyd, lle bydd amgylchiadau eich achos yn ymddangos eu bod yn awgrymu'r angen am hyn, efallai bydd angen ystyried y wybodaeth feddygol berthnasol gan un neu fwy o aelodau Paneli Ymgynghorol Meddygol yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae aelodaeth y Paneli hyn yn cydymffurfio'n gaeth ag egwyddor cyfrinachedd.

Am wybodaeth bellach ynghylch sut rydym yn prosesu eich data, eich hawliau a gyda phwy y dylech gysylltu, gweler ein hysbysiad preifatrwydd yn www.gov.uk/government/publications/dvla-privacy-policy

Mae'n rhaid PEIDIO â newid yr adran hon mewn unrhyw fodd.

Datganiad

Rwy'n awdurdodi fy meddyg, arbenigwr neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol i ryddhau gwybodaeth neu adroddiadau meddygol am fy nghyflwr iechyd sy'n berthnasol i'm ffitrwydd i yrru ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth.

Deallaf y gall y meddyg rwyf yn ei awdurdodi basio'r awdurdodiad hwn i weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig arall, a fydd yn gallu darparu gwybodaeth am fy nghyflwr meddygol sy'n berthnasol i'm ffitrwydd i yrru. Deallaf y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddatgelu gwybodaeth feddygol berthnasol o'r fath fel y bo angen i'r ymchwiliad o'm ffitrwydd i yrru i feddygon ac i weithwyr gofal iechyd proffesiynol megis orthoptyddion, staff parafeddygol ac aelodau o'r panel Ymgynghorol Meddygol yr Ysgrifennydd Gwladol.

Rwy'n datgan fy mod wedi gwirio'r manylion rwyf wedi'u nodi ar yr holiadur amgaeedig ac, hyd eithaf fy ngwybodaeth a chred, maent yn gywir.

“Deallaf ei bod yn drosedd os byddaf yn gwneud datganiad ffug i gael trwydded yrru a gall arwain at erlyniad.”

Enw: _____

Llofnod: _____ Dyddiad: _____

Awdurdodaf yr Ysgrifennydd Gwladol i ohebu â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drwy e-bost

Ydw Nac ydw

Os hoffech inni gysylltu â chi am eich cais drwy e-bost neu neges testun (SMS), ticiwch y blychau priodol (isod). Os na, bydd y DVLA yn parhau i gysylltu â chi drwy'r post.

Awdurdodaf gynrychiolydd yr Ysgrifennydd Gwladol i gysylltu â fi drwy E-bost neu Destun SMS mewn perthynas â'r cais hwn (Ticiwch):

E-bost Ydw Nac ydw

SMS (Testun) Ydw Nac ydw



Noder: cwblhewch a dychwelwch holl dudalennau'r holiadur meddygol hwn a'r ffurflen awdurdodiad. Os na wnewch chi roi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnom, gan gynnwys enw llawn, cyfeiriad a rhif ffôn eich Meddyg Teulu/Ymgynghorydd, yna bydd oedi gyda'ch cais.

Defnyddiwch y manylion cyswllt isod i ddychwelyd eich holiadur meddygol wedi'i gwblhau i
Grŵp Meddygol Gyrwyr

Drwy'r Post:

Grŵp Meddygol Gyrwyr,
DVLA,
Abertawe.
SA99 1DF

E-bost: eftd@dvla.gov.uk

Cadwch y dudalen hon i gyfeirio ati yn y dyfodol.

Ewch i
www.gov.uk/browse/driving
am fynediad hawdd a chyflym
i'n gwasanaethau ar-lein
Arbedwch amser
ac ewch ati ar-lein nawr